

Coetir Ysbryd y Llynfi Spirit of Llynfi Woods

Croeso i Goetir 'Ysbryd y Llynfi'

Gynt yn gartref i Bwll Glo Coegnant a Golchfa Maesteg, mae'r safle 75 hectar hwn (mae hectar oddeutu'r un maint â chae rygbi) yn cynnig amrywiaeth o dirweddau a golygfeydd godidog, gan ei wneud yn lle delfrydol i fywyd gwylt ac ymwelwyr. Gyda'i lwybrau cerdded, ei lwybr rhedeg, ei gampfa awyr agored a'i lwybr gweithgareddau cŵn, yn ogystal â'i berllannau a'i lecynnau addysgol, mae'r coetir cymunedol hwn wedi cydio yn nychymyg ac ysbyrd trigolion yr ardal, gan ei wneud yn lle y gall pobl gysylltu ag ef a chyfrannu ato am genedlaethau i ddod.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu'r Coetir Cymunedol hwn ar y cyd â thrigolion Cwm Llynfi Uchaf. Mae'r prosiect hwn, a noddir gan Gronfa Natur Llywodraeth Cymru a Chronfa Cwmni Ford Motor, yn cefnogi menter Llynfi 20 sydd â'r nod o wella iechyd a lles y bobl sy'n byw yn y cwm bywiog hwn. Trwy ymgorffori syniadau plant, pobl ifanc a thrigolion yr ardal, rydym yn trawsnewid yr hen safle diwydiannol hwn yn lle hardd a thawel y gall pawb ei fwynhau.



Welcome To 'The Spirit of Llynfi' Woods

Once home to the Coegnant Colliery and Maesteg Washery, this 75 hectare site (a hectare is roughly the size of a rugby pitch) offers a varied landscape and stunning panoramic views, making it an idyllic setting for local wildlife and visitors. With its walking trails, a running trail, an outdoor gym and a dog activity trail, as well as orchards and educational areas, this community woodland has caught the imagination and spirit of local people, making it a place that people can both connect with and contribute to for generations to come.

Natural Resources Wales has developed this Community Woodland in partnership with residents of the Upper Llynfi Valley. Sponsored by the Welsh Government Nature Fund and the Ford Motor Company Fund, this project supports the Llynfi 20 initiative aimed at improving the health and wellbeing of those living within this vibrant valley. By incorporating the ideas of local children, young people and residents, we are transforming this former industrial site into a place of beauty and tranquillity for all to enjoy.